OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 443 (Cy. 101)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23, Rogiet i Ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) (Rhif 2) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Ebrill 2020* |
| *Yn dod i rym* | *14 Ebrill 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23, Rogiet i Ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) (Rhif 2) 2020 a daw i rym ar 14 Ebrill 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw'r darn o gerbytffordd tua'r dwyrain Traffordd yr M4 sy'n ymestyn o bigyn trwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain ar yr M48 wrth Gyffordd 23, Rogiet hyd at ffin Cymru/Lloegr.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**Gwaharddiad**

**3.** Ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd ar y draffordd.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**4.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

**Dirymu**

**5.** Mae Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23, Rogiet i Ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020(**2**) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 9 Ebrill 2020

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(**2**) O.S. 2020/84 (Cy. 12)